**EITEM AR YR AGENDA: 13**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19eg Rhagfyr 2011**

## ADBORTH I'R ADRODDIAD MONITRO I FWRDD YR IAITH GYMRAEG

**Adroddiad gan Colin Hanks, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Adrodd yn ôl am yr adborth a dderbyniwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ynglŷn ag Adroddiad Monitro Cynllun Iaith Gymraeg Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru 2010-11.

## Y Cefndir

2 Bob blwyddyn, mae gofyn i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru lunio adroddiad manwl ynglŷn â'i Gynllun Iaith Gymraeg ar gyfer Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae hwn yn nodi'r cynnydd a wnaed i gyrraedd y targedau a amlinellir yng Nghynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth 2010-13. Cymeradwywyd yr adroddiad gan y Panel Gweithredol yn y cyfarfod ym mis Medi, ac ers hynny mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi derbyn adborth ffurfiol ynglŷn ag adroddiad eleni, ac mae wedi cyfarfod â Bwrdd yr Iaith Gymraeg i drafod yr adborth ymhellach.

## Gwybodaeth

3 Roedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn canmol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru am gyflwyno adroddiad cynhwysfawr a oedd yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol ac yn tynnu sylw at y cynnydd a wnaed mewn perthynas â gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg yn ystod 2010/11.

4 Hefyd, roedd y Bwrdd yn croesawu'r data meintiol ac ansoddol a gafwyd o ganlyniad i'r dadansoddiad o'r Sgiliau Iaith Gymraeg a wnaethpwyd gan y Gwasanaeth dros y flwyddyn, ac yn ei longyfarch amdano. Bydd y data'n gymorth i'r Gwasanaeth gynllunio'r gweithlu'n effeithiol, ac mae'r Bwrdd wedi dweud ei fod yn edrych ymlaen at weld y targedau a osodir yn dilyn yr ymarferiad hwn.

5 Mae rhai pwyntiau yn yr adroddiad y mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi gofyn am ymateb mwy manwl yn eu cylch, a darparwyd hynny mewn cyfarfod adborth ar 1af Tachwedd 2011, gyda'r Bwrdd yn cael ei fodloni.

6 Roedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn croesawu'r ystadegau a gofnodwyd fel rhan o'r Dadansoddiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, gan mai dim ond ychydig iawn o sefydliadau sy'n gallu darparu darlun mor gywir o'r sgiliau Cymraeg ymhlith y staff. Fodd bynnag, roedd y Bwrdd yn amau'r ystadegau ynglŷn â'r sgiliau Cymraeg a gofnodwyd ar gyfer y staff y mae eu rôl yn gofyn am sgiliau Cymraeg sy'n lefel 4 neu uwch. Rhoddodd y Gwasanaeth sicrwydd ei fod yn mynd i'r afael â'r mater, ac yn wir, mae'r Adolygiad o'r Trefniadau Gwaith Gweinyddol sy'n mynd rhagddo hefyd yn cymryd sgiliau Cymraeg i ystyriaeth er mwyn bod yn gymorth i gael cynnydd yn hyn o beth.

7 Mae'r Gwasanaeth yn parhau i hyrwyddo'r iaith ac i annog datblygiad sgiliau Cymraeg ymhlith ei staff er mwyn sicrhau bod cynnydd parhaus yn cael ei wneud, a'i fod yn parhau i ddarparu gwasanaethau dwyieithog i bobl gogledd Cymru ac i annog y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

## Argymhelliad

8 Bod yr Aelodau'n nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r Cynllun Iaith Gymraeg, ynghyd â'r sicrwydd a roddwyd i sicrhau bod y Gwasanaeth yn parhau i fonitro cynnydd yn hyn o beth.

18/10/2011

Mr Simon Smith - Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0JJ

Annwyl Mr Smith,

**ADRODDIAD MONITRO 2010/11 AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Diolch yn fawr am gyflwyno'r adroddiad uchod i Fwrdd yr Iaith Gymraeg er ystyriaeth. Mae sylwadau manwl ynghlwm gyda'r llythyr hwn, ond mae ambell beth i'w nodi cyn hynny.
Mae'r Awdurdod wedi cyflwyno adroddiad cynhwysfawr sy'n dilyn y fformat a gytunwyd gyda'r Bwrdd. Credwn fod yr adroddiad ar y cyfan yn cynnwys gwybodaeth defnyddiol a'i fod yn amlygu cynnydd yng ngweithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg yn ystod 2010/11.

Mae'r Bwrdd yn croesawu'r data meintiol ac ansoddol sydd wedi deillio o'r Dadansoddiad o Sgiliau Siarad Cymraeg y mae'r gwasanaeth wedi ymgymryd ag ef yn ystod y flwyddyn. Bydd y data hwn yn cynorthwyo'r gwasanaeth i gynllunio'r gweithlu yn effeithiol ac edrychwn ymlaen i gael gweld y targedau a osodir yn dilyn yr ymarferiad hwn. Nid yw'r Gwasanaeth wedi llwyddo i adrodd yn erbyn Dangosydd Iaith Gymraeg 1 y Bwrdd, sef 'Gwasanaethau ar gontract – canran o sampl o gontractau gafodd eu monitro sy'n cydymffurfio â gofynion y Cynllun Iaith'. Gofynnwn i'r Gwasanaeth ddarparu'r wybodaeth hwn os gwelwch yn dda.

Mae rhai pwyntiau o'r adroddiad yr hoffem ymateb manylach iddynt, ac mae'r rhain wedi eu nodi yn ein hadroddiad. Y cam arferol nesaf yw i ni gynnal cyfarfod adborth yn y dyfodol agos er mwyn trafod materion yn codi o'r adroddiad ac o'r ymateb hwn.

Caiff y cyfarfod hwn ei gynnal ar ddydd Gwener Hydref 21. Yn y cyfamser os oes gennych unrhyw gwestiynau am gynnwys y llythyr hwn, yna mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,

**DYLAN JONES**
*Uned Llywodraeth yng Nghymru*

Copi at: Colin Hanks, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol;
Tracey Williams, Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol;

**Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru – Adroddiad Monitro Cynllun Iaith Gymraeg 2010-11**
**Sylwadau Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Hydref 2011**

| **Adran** | **Sylw** |
|---|---|
| **1. Cyflwyniad** | |
| Tud 3<br>• 1 | Croesawn fod gan y wefan bellach gyfleuster galluogi llais dwyieithog. Diolch i chi hefyd am y data perthnasol yn adran 4. |
| Tud 3<br>• 2 | Gwerthfawrogwn y diweddariad ar fewnrwyd dwyieithog y Gwasanaeth. A oes modd i chi fonitro defnydd y mewnrwyd hwn fel y gallwch a'ch gwefan? Os felly, fyddai modd i ni gael derbyn y ffigyrau perthnasol os gwelwch yn dda? |
| Tud 3<br>• 3 | Yn dilyn Arolwg gwefannau a gynhaliwyd gan y Bwrdd yn ystod haf 2010, braf yw gallu nodi fod y Gwasanaeth bellach wedi mabwysiadu cyfeiriadau e-bost Cymraeg. |
| Tud 5 | Croesawn a llongyfarchwn y Gwasanaeth ar y gwaith a'r ystadegau a gofnodwyd fel rhan o'r Dadansoddiad o Sgiliau Siarad Cymraeg. Deallwn yr hyn a gaiff ei egluro gennych ynghylch y nifer o staff sydd ar lefel 0 neu 1 o ran defnyddio'r Gymraeg. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu fod 397 o 933 o'r staff ar y lefelau hynny, felly beth yw cynllun y Gwasanaeth i leihau'r nifer hwn?<br><br>Fe nodir hefyd fod 92 swydd wedi ei nodi fel lefel 4 a mai 53 o'r rheiny sydd â'r sgiliau sydd eu hangen. A yw'r 39 arall felly yn neu am dderbyn hyfforddiant yn y dyfodol agos? Gallwn drafod hyn ymhellach yn ein cyfarfod adborth. |
| Tud 6<br>• 1 | Nodir yn yr adroddiad y "rhoddir ystyriaeth i gyfuno'r ddau grŵp" sy'n trafod materion Cymraeg y Gwasanaeth. A oes unrhyw benderfyniad wedi ei wneud ynghylch hyn? |
| Tud 6<br>• 3 | Croesawn yr ymrwymiad a'r gwariant ar gyfer offer cyfieithu ar y pryd ar gyfer eich cyfarfodydd mewnol. |
| Tud 6<br>• 5 | Gwerthfawrogwn yr anawsterau sydd wrth geisio cyflwyno sesiwn ymwybyddiaeth iaith i'r holl swyddogion tân, yn enwedig wrth ystyried fod nifer ohonynt yn rhan amser. Croesawn yn fawr felly ddatblygu sesiwn ymwybyddiaeth iaith ar-lein. Edrychwn ymlaen at gael gweld hyn. A fyddai hyn yn rhywbeth i'w rannu gyda Gwasanaethau Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru a De Cymru? A ydych yn datblygu hwn yn fewnol, neu a ydych yn defnyddio Asiantaeth allanol? |
| Tud 6<br>• 7 | Braf yw nodi'r set newydd o Ddangosyddion Perfformiad sydd wedi eu cytuno gan yr adrannau, a gwerthfawrogwn y data sydd wedi'i gyflwyno fel rhan o'ch adroddiad. |
| Tud 9<br>• 2 | Croesawn fod y Gwasanaeth fel rhan o'i Strategaeth Gyfathrebu yn defnyddio Facebook a Twitter. Braf yw nodi fod y diweddariadau ar gael yn ddwyieithog. |
| **2. Rheoli a Gweinyddu'r Cynllun** | |
| | Nodi'r ar dudalennau 10 ac 11 fod Gweithgor Iaith a Grŵp Iaith Gymraeg Strategol yn bodoli o fewn y Gwasanaeth. A fyddech yn gallu ymhelaethu ar hyn gan egluro beth yw swyddogaethau'r ddau grŵp os gwelwch yn dda? |

| | |
|---|---|
| **3. Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg** | |
| Tud 16 | Nodir yma o dan yr adran Hunanymwybyddiaeth barhaus eich bod yn "gweithio gyda'r adran Adnoddau Dynol i gau'r bwlch". A fyddech yn ymhelaethu ar hyn os gwelwch yn dda gan egluro beth yn union yw rôl yr adran Adnoddau Dynol? |
| **4. Dangosyddion Perfformiad Iaith Gymraeg y Gwasanaeth Tân ac Achub** | |
| DIG 19 | Nodir yma fod gan y Gwasanaeth oddeutu 100 o gontractwyr ar ei restr cymeradwy. Nod DIG 1 Bwrdd yr Iaith yw derbyn gwybodaeth ar ganran o sampl o gontractau gafodd eu monitro sy'n cydymffurfio â gofynion y Cynllun Iaith. A oes unrhyw waith samplo wedi ei wneud gennych yn ystod y flwyddyn? |
| | Yn gyffredinol fodd bynnag, mae'r wybodaeth a'r data sy'n cael ei gyflwyno yma o dan y Dangosyddion yn gosod sail gadarn i'r Gwasanaeth ar gyfer mesur cynnydd yn y blynyddoedd i ddod. |
| Dadansoddiad o Sgiliau Siarad Cymraeg, Mai 2011 | |
| | Croesawn yn fawr fel ag y nodwyd uchod y gwaith yr ydych wedi ei gyflawni er mwyn gallu cyflwyno'r data hwn. Rydych i'ch llongyfarch ar gael gwybodaeth y mwyafrif helaeth o'r gweithlu o'r gweithlu.<br>Mae'r ffigyrau yn galonogol iawn mewn rhai meysydd, ac yn peri ychydig o bryder mewn ambell faes, megis y nifer o swyddi prif dderbynfeydd sy'n Gymraeg hanfodol ond wedi'u llenwi gan 12 (46.15%). Wedi dweud hynny, mae'r ffigyrau yn rhoi darlun clir i'r Gwasanaeth o'r gwaith sydd angen ei wneud er mwyn cyrraedd y nod.<br>Fel ag y nodwyd uchod, gallwn drafod hyn ymhellach yn ein cyfarfod adborth. |